

# Arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (lle rhoddwyd rhybudd)

Adran Radiotherapi,  
Canolfan Trin Canser  
Gogledd Cymru, Ysbyty  
Glan Clwyd

Dyddiad arolygu: 24 a 25 Awst 2016

Dyddiad cyhoeddi: 28 Tachwedd 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb .....	5
5.	Canfyddiadau .....	7
	Ansawdd Profiad y Claf .....	7
	Cydymffurfiad â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)...	9
6.	Y Camau Nesaf.....	19
	Atodiad A.....	20

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd arolygiad o gydymffurfiad â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (RhYÏ(DM)) 2000 a diwygiadau 2006 a 2011 i'r rheoliadau ar 24 a 25 Awst yn yr Adran Radiotherapi, Canolfan Trin Canser Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd, yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r rheoliadau'n gosod cyfrifoldebau ar ymarferwyr, gweithredwyr a'r rheiny sy'n atgyfeirio cleifion am ddatguddiadau meddygol, a chyflogwyr y tri grŵp hyn. O dan y rheoliadau, mae'n ofynnol i'r cyflogwr greu fframwaith ar gyfer cyflenwi ymbelydredd Ïoneiddio mewn modd diogel, effeithlon ac effeithiol trwy ddarparu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig. Gall torri'r rheoliadau arwain at gyflwyno hysbysiadau gwahardd, hysbysiadau gwella, neu achosion troseddol.

Llunnir y rheoliadau i sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag datguddiad anfwriadol, gormodol, neu anghywir i ymbelydredd meddygol ac, ym mhob achos, bod y risg sy'n gysylltiedig â'r datguddiad yn cael ei hasesu yn erbyn y budd clinigol (cyfiawnhad).
- Nid yw cleifion yn cael eu datguddio mwy nag sydd angen i gyflawni'r budd a ddymunir o fewn cyfyngiadau'r dechnoleg bresennol (optimeiddio).
- Nad yw ymarferwyr na gweithredwyr yn ymgymryd ag unrhyw ddatguddiad meddygol oni bai eu bod wedi cael eu hyfforddi'n briodol. Mae cyflogwyr yn sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu a bod cofnodion yr hyfforddiant hwn yn cael eu cynnal.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol yng nghyd-destun y rheoliadau:

- Ansawdd Profiad y Claf
- Cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## 2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd ym meddiant AGIC hyd yma
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau, a thrafodaethau gyda staff
- Trafodaethau gydag uwch-reolwyr y bwrdd iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau sy'n ofynnol dan y RhYŷ(DM)
- Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd gofal a'r arferion gofal
- Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth.

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn ac yn nodi i ba raddau y mae'r gwasanaethau'n bodloni'r rheoliadau a gallant dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir.

### 3. Cyd-destun

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu gwasanaethau ysbyty sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac aciwt i boblogaeth o tua 678,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

Mae'r bwrdd iechyd yn gyfrifol am dri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan, ac Ysbyty Maelor Wrecsam), yn ogystal â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a chanolfannau timau cymunedol. Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn cydlynu gwaith 114 o bractisau ymarferwyr cyffredinol a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng ngogledd Cymru.

Mae'r bwrdd iechyd yn darparu gwasanaeth radiotherapi yng nghanolfan Trin Canser Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd. Agorodd y ganolfan ym mis Mehefin 2000.

#### **Gweithgaredd**

Mae'r adran radiotherapi yn trin tua 1800 o gleifion newydd bob blwyddyn, a gall nifer y triniaethau mewn cwrs radiotherapi amrywio rhwng 1 a 37. Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn mynychu bob dydd i gael triniaeth.

#### **Cyfarpar**

Mae'r adran radiotherapi yn gallu darparu triniaethau pelydr allanol, 'orthovoltage' ac arwynebol, a chaiff pob un ohonynt eu cynllunio a'u darparu ar y safle. Mae Tomograffeg Gyfrifiadurol (CT), Tomograffeg Gollwng Positronau (PET/CT) a sganio Cyseiniant Magnetig (MR) ar gael yn rhan o'r broses cynllunio triniaeth radiotherapi. Mae sganiwr CT penodol ar gael ar y safle a gall cleifion gael eu cyfeirio ar gyfer sgan PET/CT a MRI yn ôl y gofyn. Mae'r delweddau triniaeth ar gael fel delweddau planar 2D a phelydr côn CT (CBCT). Caiff cleifion eu hatgyfeirio i safle arall ar gyfer triniaeth brachitherapi yn ôl y gofyn.

#### **Staffio**

Mae cyfanswm o wyth oncolegydd clinigol ymgynghorol a phedwar cofrestrydd arbenigol yn cefnogi'r adran radiotherapi. I gwblhau hyn, mae 39 radiograffydd ac 14 o staff ffiseg ar gael, ac y mae pedwar ohonynt yn arbenigwyr ffiseg feddygol a phedwar yn swyddogion technegol meddygol. Ni adroddwyd am unrhyw swyddi gwag tymor hir parhaol.

## 4. Crynodeb

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaed sylwadau cadarnhaol ynghylch y dull o weithredu ac agwedd y tîm staff. Gwelsom fod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus, a chadarnhawyd hyn gan gleifion. Roedd gwybodaeth am driniaethau radiotherapi ar gael yn rhwydd i gleifion.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi canfod cyflogwr dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Roedd yn uwch swyddog o fewn y bwrdd iechyd a oedd â'r cyfrifoldeb terfynol dros sicrhau bod y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn cael eu gweithredu o fewn y gwasanaeth radiotherapi.

Roedd y cyflogwr wedi sefydlu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig cynhwysfawr fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth radiotherapi diogel ac effeithiol i gleifion. Byddai adolygu rhai o'r rhain o fudd er mwyn osgoi dyblygu diangen ac i hyrwyddo mwy o eglurder.

Gwelsom dystiolaeth bendant o gwmpas hawliau'r deiliaid dyletswyddau. Roedd cofnodion hyfforddiant wedi'u cadw ac roeddent ar gael i'w harchwilio. Dylid ystyried datblygu cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer brachtherapi er mwyn diffinio'r cyfrifoldebau'n glir yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

Roedd rhestrau cyfredol ar gael o unigolion penodedig ac roedd yn nodi eu cwmpas hawliau i weithredu fel atgyfeirwyr, ymarferwyr neu weithredwyr.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau y cedwir dosau datguddiadau meddygol mor fach ag sy'n rhesymol bosibl. Fodd bynnag, rydym wedi argymhell y dylid gwneud gwelliannau o ran hyn yn ymwneud â datguddiadau CBCT.

Roedd amserlen gyfredol ar gael ar gyfer archwiliadau clinigol. Dangoswyd enghreifftiau o'r archwiliadau clinigol a gynhaliwyd a'u canfyddiadau.

Roedd arbenigwyr ffiseg feddygol yn ymwneud â datguddiadau meddygol. Fodd bynnag, gellid diffinio eu swyddogaeth yn well mewn dogfennau ategol.

Roedd rhestr gyfredol ar gael o'r offer radiolegol a ddefnyddiwyd yn y gwasanaeth radiotherapi.

Roeddem o'r farn bod yr uwch staff yn rhoi arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol. Cafodd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir eu disgrifio a'u gweld yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol).



## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaed sylwadau cadarnhaol ynghylch y dull o weithredu ac agwedd y tîm staff. Gwelsom fod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus, a chadarnhawyd hyn gan gleifion. Roedd gwybodaeth am driniaethau radiotherapi ar gael yn rhwydd i gleifion.**

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r gwasanaeth radiotherapi ddsbarthu holiaduron AGIC ymysg cleifion er mwyn cael eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom geisio eu barn hefyd a hynny trwy siarad â nifer o gleifion a oedd yn mynychu'r gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o 28 holiadur.

Nododd yr holl gleifion/gofalwyr a oedd wedi gwneud sylwadau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn ac roeddent yn canmol dull gweithredu ac agwedd y tîm staff. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol,

*'Mae'r staff yn gymwynasgar iawn. Gofal da. Ymdrinnir ag unrhyw ymholiadau yn ystod apwyntiadau.'*

*'Awyrgylch hamddenol. Staff hyfryd.'*

*'Mae'r driniaeth wedi bod yn berffaith.'*

*'Mae pawb mor gymwynasgar a chyfeillgar.'*

*'Mae'r ysbyty'n lân. Mae'r staff yn gwrtais a chymwynasgar.'*

Gwelsom y tîm staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd, a chafodd hyn ei adlewyrchu yn y sylwadau y gwnaethom eu derbyn gan gleifion. Yn ystod ein trafodaethau gyda'r rheolwr gwasanaethau radiotherapi, roedd yn amlwg bod y tîm yn rhoi pwyslais cryf ar hybu preifatrwydd ac urddas cleifion. Gwelsom fod nifer o fannau aros yn cynnwys sgriniau preifatrwydd lle gallai cleifion aros cyn eu triniaethau, ac ar ôl eu triniaethau, os oeddent yn teimlo'n sâl. Roedd ciwbiclau newid ar gael hefyd a oedd yn rhoi preifatrwydd i gleifion pan oeddent angen gwisgo/tynnu gynau urddas (ysbyty).

Yn ystod taith o amgylch y gwasanaeth radiotherapi, gwelsom fod pob man yn lân ac yn daclus. Gwnaeth y cleifion a roddodd sylwadau nodi hefyd eu bod yn fodlon ar safon y glendid.

Roedd taflenni gwybodaeth ar gael yn rhwydd yn y manau aros a dywedodd y staff wrthym eu bod hefyd ar gael i gleifion a'u gofalwyr ar wefan y bwrdd iechyd. Yn ogystal â hyn, nododd y cleifion a roddodd sylwadau eu bod o'r farn eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaethau.

Esboniodd yr uwch staff radiotherapi eu bod yn gweithio'n agos gydag aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol, er enghraifft dietegwyr, therapyddion lleferydd ac iaith, ffisiotherapyddion a chynghorwyr. Roedd hyn yn golygu bod y staff a allai ddarparu cymorth a chynghor arbenigol yn cefnogi'r cleifion ar hyd eu llwybr gofal yn unol â'r hyn oedd yn briodol i'w hanghenion gofal. Roedd aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnal clinigau o fewn yr adran, gyda'r bwriad o sicrhau eu bod yn fwy cyfleus i gleifion allu eu mynychu.

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth fynychu ar gyfer eu triniaethau. Gwnaeth y cleifion hynny a nododd eu bod wedi profi oedi, roi gwahanol resymau dros hynny, yn cynnwys oedi o ran y fferyllfa a thrafnidiaeth. Er nad yw'r rhain dan reolaeth uniongyrchol y gwasanaeth radiotherapi, efallai y byddai'r tîm rheoli'n dymuno ymchwilio i hyn ymhellach er mwyn pennu pa welliannau y gellid eu gwneud yn hyn o beth.

## ***Cydymffurfiad â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)***

**Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi canfod cyflogwr dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Roedd yn uwch swyddog o fewn y bwrdd iechyd a oedd â'r cyfrifoldeb terfynol dros sicrhau bod y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn cael eu gweithredu o fewn y gwasanaeth radiotherapi.**

**Roedd y cyflogwr wedi sefydlu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig cynhwysfawr fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth radiotherapi diogel ac effeithiol i gleifion. Byddai adolygu rhai o'r rhain o fudd er mwyn osgoi dyblygu diangen ac i hyrwyddo mwy o eglurder.**

**Gwelsom dystiolaeth bendant o gwmpas hawliau'r deiliaid dyletswyddau. Roedd cofnodion hyfforddiant wedi'u cadw ac roeddent ar gael i'w harchwilio. Dylid ystyried datblygu cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer brachitherapi er mwyn diffinio'r cyfrifoldebau'n glir yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).**

**Roedd rhestrau cyfredol ar gael o unigolion penodedig ac roedd yn nodi eu cwmpas hawliau i weithredu fel atgyfeirwyr, ymarferwyr neu weithredwyr.**

**Roedd trefniadau ar waith i sicrhau y cedwir dosau datguddiadau meddygol mor fach ag sy'n rhesymol bosibl. Fodd bynnag, rydym wedi argymhell y dylid gwneud gwelliannau o ran hyn yn ymwneud â datguddiadau CBCT.**

**Roedd amserlen gyfredol ar gael ar gyfer archwiliadau clinigol. Dangoswyd enghreifftiau o'r archwiliadau clinigol a gynhaliwyd a'u canfyddiadau.**

**Roedd arbenigwyr ffiseg feddygol yn ymwneud â datguddiadau meddygol. Fodd bynnag, gellid diffinio eu swyddogaeth yn well mewn dogfennau ategol.**

**Roedd rhestr gyfredol ar gael o'r offer radiolegol a ddefnyddiwyd yn y gwasanaeth radiotherapi.**

## **Dyletswyddau'r cyflogwr**

*Diffinnir y cyflogwr yn Rheoliad 2 (1) fel unrhyw berson naturiol neu gyfreithlon sydd, yng nghyswllt masnach, busnes neu fenter arall, yn cyflawni (ac eithrio fel gweithiwr cyflogedig), neu'n cyfarwyddo eraill i gyflawni, datguddiadau meddygol neu elfennau ymarferol mewn gweithfa radiolegol benodol.*

Penodwyd Prif Weithredwr y bwrdd iechyd fel y cyflogwr. Mae hyn yn unol â'r canllawiau cenedlaethol <sup>1</sup> ar gyfer gweithredu deddfwriaeth Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) fel y mae'n berthnasol i radiotherapi.

Roedd dogfen *Polisi Amddiffyn Rhag Ymbelydredd Ïoneiddio* y bwrdd iechyd yn nodi'r Prif Weithredwr fel y cyflogwr dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Mae'r polisi ysgrifenedig hwn yn nodi'n glir mai'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am weithredu'r ymbelydredd Ïoneiddio a ddefnyddir yn adeiladau'r bwrdd iechyd mewn modd diogel.

Gwnaeth yr uwch staff ddisgrifio a dangos llinellau adrodd ac atebolrwydd clir rhwng y gwasanaeth radiotherapi a'r bwrdd iechyd. Gwelsom fod gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig cynhwysfawr wedi'u datblygu a'u gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth RhYİ(DM). Gwelsom hefyd fod gan y cyflogwr drefniadau ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd i wneud yn siŵr bod ymarferwyr a gweithredwyr wedi'u hyfforddi'n ddigonol, ac er mwyn ymchwilio i ddigwyddiadau ac adrodd amdanynt. Dyletswyddau'r cyflogwr yw'r rhain i gyd yn unol â'r RhYİ(DM).

## **Gweithdrefnau a Phrotocolau**

*Mae rheoliad 4 (1) a 4 (2) yn nodi ei bod yn ofynnol i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig ar gael.*

Cyn ein hymweliad arolygu, cyflwynodd y bwrdd gopïau o bolisiâu, gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig perthnasol. Roedd y rhain yn gynhwysfawr ac yn cynnwys gweithdrefnau'r cyflogwr fel sy'n ofynnol dan RhYİ(DM). Disgrifiodd yr uwch staff y broses ar gyfer adolygu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig, a'r system ar gyfer hysbysu staff o unrhyw newidiadau a wnaed. Cadarnhaodd y staff adrannol y gwnaethom siarad â nhw fod y system a ddisgrifiwyd yn eu hysbysu o newidiadau hefyd.

---

<sup>1</sup>Canllaw i Ddeall Goblygiadau Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) mewn Radiotherapi - [https://www.rcr.ac.uk/sites/default/files/publication/BFCO083\\_IRMER.pdf](https://www.rcr.ac.uk/sites/default/files/publication/BFCO083_IRMER.pdf)

Gwnaethom nodi rhai gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig a fyddai'n elwa ar gael eu diwygio er mwyn osgoi dyblygu diangen ac i hyrwyddo mwy o eglurder. Roedd y rhain yn ymwneud ag:

- adolygu rhai o'r termau a ddefnyddir a sicrhau eu bod yn gyson â'r rhai a ddefnyddir yn RhYŷ(DM)
- *Llawlyfr Datguddiadau Meddygol ar gyfer Radiotherapi* y cyflogwr, a oedd yn cyfeirio darllenwyr at weithdrefnau ysgrifenedig eraill a ddefnyddir yn y gwasanaeth radiotherapi. Gwelsom rywfaint o ddyblygu rhyngddynt ac roedd y gweithdrefnau ysgrifenedig eraill yn cyfeirio at
- benawdau yn y llawlyfr a oedd yn cyfeirio at weithdrefnau sy'n ofynnol dan y RhYŷ(DM), ond nid oeddent yn berthnasol i'r gwasanaeth radiotherapi. Gwelsom fod 'Amh' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer *amherthnasol* yn hytrach na datganiad clir i adlewyrchu'r ffaith nad oedd y mathau hynny o ddatguddiadau'n cael eu perfformio yn yr adran radiotherapi
- a oedd yn disgrifio'n eglur sut y mae arbenigwyr ffiseg feddygol yn rhan o'r cynllunio, y technegau ar gyfer optimeiddio datguddiadau meddygol a'r gweithgarwch sicrhau ansawdd
- Roedd rhai mân anghysondebau rhwng y wybodaeth yn y llawlyfr a'r wybodaeth yn y gweithdrefnau eraill.

Gwnaethom dynnu sylw'r uwch staff at yr uchod a gytunodd i ystyried sut y gellid gwella'r polisiau, y gweithdrefnau a'r protocolau ysgrifenedig a chymryd camau fel bo'n briodol.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid ystyried symleiddio gweithdrefnau'r RhYŷ(DM) ar adeg yr adolygiad er mwyn lleihau dyblygu gwybodaeth a chynnig mwy o eglurhad.***

### **Hysbysiadau am ddiwyddiadau**

*Pan fo digwyddiad lle bo unigolyn wedi bod yn agored i lawer mwy o ymbelydredd ïoneiddio nag a fwriadwyd wrth dderbyn datguddiad meddygol, mae Rheoliad 4 (5) yn datgan y dylai'r sefydliad gofal iechyd ymchwilio i hynny a hysbysu'r awdurdod priodol.*

Mae dogfennau *Adrodd am Ddiwyddiadau Ymbelydredd a Diffyg Cydymffurfiaeth a Chamau Cywirol* y cyflogwr yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi, adrodd ac ymchwilio i ddiwyddiadau. Roedd yr uwch staff yn ymwybodol o'r rhain ac roeddent yn gallu eu disgrifio. Dywedwyd wrthym fod

digwyddiadau'n cael eu hadrodd trwy ddefnyddio system electronig y bwrdd iechyd ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau. Roedd digwyddiadau ymbelydredd perthnasol wedi'u hadrodd i AGIC hefyd yn unol â'r broses adrodd am ddigwyddiadau <sup>2</sup> ar gyfer gwasanaethau GIG Cymru.

Gwelsom enghreifftiau o ddadansoddi digwyddiadau. Dywedodd yr uwch staff y rhannwyd yr hyn a ddysgwyd o ganlyniad i ddigwyddiadau ymhlith yr adran, yr ysbytai eraill o fewn y bwrdd iechyd, a'r adrannau radiotherapi eraill yng Nghymru ac ar draws y DU. Dangosodd yr uwch staff barodrwydd i geisio cyngor gan ganolfannau radiotherapi eraill ar draws Cymru hefyd. Roedd hyn gyda'r bwriad o wneud gwelliannau'n ymwneud â diogelwch cleifion o fewn y bwrdd iechyd a'r gymuned radiotherapi ehangach.

### **Lefelau cyfeirio diagnostig**

*Mae Rheoliad 4(3)(c) yn nodi ei bod yn ofynnol i'r cyflogwr sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig (DRL) ar gyfer archwiliadau diagnostig radio. Ni ddisgwylir i weithdrefnau safonol fynd y tu hwnt i'r rhain wrth weithredu arferion da a chyffredin o ran perfformiad diagnostig a thechnegol.*

Nid yw sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig yn berthnasol i driniaethau radiotherapi.

### **Hawl**

*Mae Rheoliad 2 (1) yn nodi ei bod yn ofynnol i ddeiliaid dyletswyddau, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, feddu ar yr hawl i wneud y tasgau a wnânt. Mae Rheoliadau 11 (1) ac 11 (4) yn datgan bod yn rhaid i ymarferwyr a gweithredwyr fod wedi'u hyfforddi'n briodol hefyd, ac mae'n rhaid i'r cyflogwr gadw cofnodion hyfforddiant cyfredol o'r hyfforddiant hwn.*

Mae'r RhYĪ(DM) yn diffinio pedwar deiliad dyletswyddau, sef y cyflogwr, yr atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r gweithredwr.

Roedd y ddogfen *Penodi Atgyfeirwyr/Ymarferwyr a Gweithredwyr ar gyfer Triniaethau Radiotherapi* yn diffinio pwy allai weithredu fel atgyfeirwyr, ymarferwyr neu weithredwyr. Roedd rhestrau cyfredol ar gael o unigolion

---

<sup>2</sup> Gweithio i Wella: Canllawiau ar gyfer ymdrin â phryderon ynghylch y GIG o 1 Ebrill 2011  
<http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=932&id=170588>

penodedig a oedd yn nodi eu cwmpas hawliau i weithredu fel atgyfeirwyr, ymarferwyr neu weithredwyr

Gwelsom sampl o gofnodion hyfforddiant ar gyfer yr ymarferwyr a'r gweithredwyr. Ar y cyfan, roedd y rhain yn gynhwysfawr, ac roeddent yn dangos y dyddiadau yr oedd y grwpiau staff hyn wedi mynychu hyfforddiant a phryd y cawsant eu hystyried yn gymwys. Trafodwyd y cyfleoedd a roddwyd i wella cofnodion hyfforddiant oncolegwyr clinigol i fod yn weithredwyr yn ystod yr ymweliad.

Nodwyd bod gan unigolyn yr hawl i weithredu fel deiliad dyletswyddau wrth ddarparu brachtherapi mewn canolfan arall. Cytunwyd ar hyn yn rhan o gytundeb gwaith gyda'r ganolfan bell ac roedd yr unigolyn yn bendant ynghylch ei gyfrifoldebau yn y ddwy adran radiotherapi. Dylid ystyried datblygu cytundeb lefel gwasanaeth i atgyfnerthu'r berthynas hon a diffinio'r cyfrifoldebau'n glir yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid gwella cofnodion hyfforddiant oncolegwyr clinigol sydd â'r hawl i fod yn weithredwyr.***

***Dylid ystyried datblygu cytundeb lefel gwasanaeth ffurfiol i amlinellu'r trefniadau a'r cyfrifoldebau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) ar gyfer cleifion a atgyfeirir ar gyfer brachtherapi***

### **Meini prawf atgyfeirio**

*Mae Rheoliad 4 (3) (a) yn nodi y dylai'r cyflogwr sefydlu argymhellion mewn perthynas â'r meini prawf atgyfeirio ar gyfer datguddiadau meddygol, gan gynnwys dosau ymbelydredd, a dylai sicrhau eu bod ar gael i'r atgyfeiriwr.*

Gwneir penderfyniadau i atgyfeirio pob claf unigol ar gyfer radiotherapi yn rhan o gyfarfod tîm amlddisgyblaethol. Dylid cymeradwyo'r arfer hwn. Fodd bynnag, dylid gwella'r meini prawf atgyfeirio ysgrifenedig.

Yn rhan o hyn, mae disgwyl y trefnir bod amcangyfrif o'r dosau cysylltiedig ar gael i'r atgyfeirwyr. Mae hyn yn cynnwys y dosau sy'n gysylltiedig â delweddau CBCT. Roedd amcangyfrifon o'r dosau oedd yn gysylltiedig â'r triniaethau wedi'u cynnwys yn y protocolau clinigol, ac roedd amcangyfrifon o'r dosau cynllunio tomograffeg gyfrifiadurol wedi'u cynnwys yn y protocol a'r gweithdrefnau delweddu. Dylid adlewyrchu hyn yn well yn nogfennaeth y RhYİ(DM).

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Gwella'r meini prawf atgyfeirio ysgrifenedig ar gyfer radiotherapi.***

***Sefydlu amcangyfrifon o'r dosau ar gyfer delweddau radiotherapi CBCT.***

### **Cyfiawnhad o Ddatguddiadau Meddygol Unigol**

*Mae Rheoliadau 6 (1) (a) a 6 (1) (b) yn nodi ei bod yn ofynnol i gyfiawnhau ac awdurdodi pob datguddiad meddygol cyn y datguddiad. Yr ymarferydd sy'n gyfrifol am gyfiawnhau'r datguddiad meddygol. Ffordd o ddangos cyfiawnhad yw trwy ddarparu awdurdodiad, a chaiff yr ymarferydd wneud hyn, neu'r gweithredwr pan ddefnyddir canllawiau cyfiawnhau.*

Roedd dogfennau Nodi Atgyfeirwyr/Ymarferwyr a Gweithredwyr ar gyfer Triniaethau Radiotherapi a Delweddau Gwirio y cyflogwr yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi datguddiadau meddygol. Roedd yn amlwg bod oncolegwyr clinigol a oedd yn gweithredu fel ymarferwyr yn gyfrifol am gyfiawnhau ac awdurdodi datguddiadau meddygol, a bod yn rhaid iddynt fod â'r hawl i wneud hynny a'u hystyried yn gymwys.

Gwelsom enghreifftiau o ffurflenni *Atgyfeiriad i Radiotherapi* wedi'u cwblhau. Roedd y rhain wedi'u llofnodi gan atgyfeirwyr ac ymarferwyr er mwyn dangos i weithredwyr bod y datguddiadau meddygol wedi'u hawdurdodi a'u cyfiawnhau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol oedd â hawl. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'r angen i lofnodi ffurflenni atgyfeirio cyn gwneud datguddiadau meddygol ar gleifion.

Roedd adegau pan oedd yr atgyfeiriwr a'r ymarferwr yr un person. Tra bod y ffurflenni atgyfeirio wedi'u llofnodi, dim ond un llofnod oedd yn bresennol. Gwnaethom argymhell y dylid cwblhau'r ffurflenni yn unol â'r hyn a fwriadwyd, sef darparu dau lofnod er mwyn dangos yn glir bod y person sy'n llofnodi'r ffurflen yn gweithredu fel yr atgyfeiriwr â hawl a'r ymarferwr. Cytunodd yr uwch staff i atgoffa'r staff i wneud hyn.

### **Manylion adnabod**

*Mae Atodiad 1 (a) yn nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys gweithdrefnau i adnabod yn gywir yr unigolyn a fydd yn cael ei ddatguddio i ymbelydredd ïoneiddio.*

Mae gweithdrefn y cyflogwr, *Manylion Adnabod Cleifion* yn nodi y dylai'r gweithredwyr, yr ymarferwyr, y derbynyddion a'r nyrsys ddefnyddio gwiriad tri



phwynt gweithredol i adnabod cleifion cyn gweithredu gweithdrefnau'n ymwneud â thriniaeth. Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn nodi'n glir mai cyfrifoldeb y ddau weithredwr a oedd yn ymwneud â threfn sefydlu a datguddiad cychwynnol y claf oedd gwirio manylion adnabod y claf cyn unrhyw amlygiad i ymbelydredd ïoneiddio.

Roedd y weithdrefn hefyd yn disgrifio'r weithdrefn i'w dilyn ar gyfer cleifion nad oedd yn gallu cadarnhau pwy oeddent.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn.

### **Menywod mewn oed i gael plant**

*Mae Atodlen 1 (d) yn nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys gweithdrefnau i holi menywod sydd mewn oed i gael plant er mwyn darganfod a yw menyw'n feichiog neu a allai fod yn feichiog.*

Roedd dogfen *Gweithdrefn Beichiogrwydd* y cyflogwr yn disgrifio'r weithdrefn i'w dilyn gan atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr ar gyfer canfod menywod a allai fod yn feichiog cyn datguddiadau meddygol. Roedd yn rhoi cyfarwyddiadau manwl i'r staff eu dilyn, yn dibynnu ar ganlyniad yr ymchwiliadau. Roedd hefyd yn cyfeirio at yr angen i atgyfeirwyr gynghori menywod o oedran i gael plant i beidio â beichiogi yn union cyn cwrs o radiotherapi nac yn ystod, oherwydd y risgiau cysylltiedig.

Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion benywaidd wedi'i harddangos, a oedd yn eu cynghori i roi gwybod i'r gweithredwyr os ydynt yn feichiog neu o bosib yn feichiog.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn.

### **Optimeiddio**

*Mae Rheoliad 7 (1) yn nodi ei bod yn ofynnol cadw'r dosau ar gyfer pob datguddiad meddygol mor fach ag sy'n ymarferol bosibl, yn unol â'r diben.*

Mae dogfen *Llawlyfr Datguddiadau Meddygol ar gyfer Radiotherapi* y cyflogwr yn nodi'r trefniadau cyffredinol ar gyfer sicrhau y gwneir datguddiadau meddygol i organau critigol y corff a'r meinwe o'u cwmpas gyn lleied ag sy'n ymarferol bosibl (cyfeirir at hyn yn aml fel ALARP). Roedd gweithdrefnau ysgrifenedig a rhestrau gwirio ychwanegol ar gael i gynorthwyo gweithredwyr

ac ymarferwyr i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o ddatguddiadau'n cael eu gwneud.

Tra bod gweithdrefnau a rhestrau gwirio ysgrifenedig wedi'u cyflwyno, ni ddangoswyd cyfleoedd i optimeiddio delweddau CBCT yn ystod yr arolygiad. Mae hwn yn faes y dylid ei wella.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r cyflogwr wneud trefniadau addas i ddangos y manteisiwyd ar gyfleoedd i optimeiddio datguddiadau, pan ddefnyddiwyd delweddau CBCT.***

### **Pediatreg**

*Mae Rheoliad 7 (7) (b) yn nodi y dylai'r ymarferydd a'r gweithredwr roi sylw arbennig i ddatguddiadau meddygol plant.*

Nid oedd y gwasanaeth radiotherapi'n darparu triniaethau ar gyfer plant.

### **Gwerthuso clinigol**

*Mae Rheoliad 7(8) yn nodi y dylai'r cyflogwr sicrhau y cofnodir gwerthusiad clinigol o bob datguddiad meddygol yn unol â' gweithdrefnau'r cyflogwr.*

Roedd dogfen *Camau Dilynol a Gwerthusiad Clinigol* y cyflogwr yn nodi'r trefniadau ar gyfer gwerthusiad clinigol y triniaethau radiotherapi a'r datguddiadau meddygol cysylltiedig. Roedd yn nodi'n glir mai'r gweithredwyr oedd yn gyfrifol am werthuso'r sganiau cynllunio tomograffeg gyfrifiadurol er mwyn sicrhau bod ansawdd eu delweddau'n foddhaol.

Roedd y ddogfen hefyd yn nodi'r trefniadau ar gyfer camau dilynol cleifion yn dilyn cwrs o driniaeth radiotherapi.

Gellid adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer gwerthuso clinigol o fewn dogfen *Llawlyfr Datguddiadau Meddygol ar gyfer Radiotherapi* y cyflogwr.

### **Archwiliadau clinigol**

*Mae Rheoliad 8 yn nodi y dylai gweithdrefnau'r cyflogwr gynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol, fel sy'n briodol.*

Gwnaeth yr uwch staff ddisgrifio'r trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol. Dywedwyd wrthym fod tîm archwilio amlddisgyblaethol yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro'r cynnydd o ran archwiliadau presennol a blaenoriaethu rhai newydd. Gwelsom ddwy enghraifft o archwiliadau a gynhaliwyd o fewn y gwasanaeth

radiotherapi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr uwch staff yn gallu disgrifio sut roedd y rhain wedi dylanwadu ar yr arferion lleol.

Roedd gan y gwasanaeth radiotherapi amserlen o weithgarwch archwiliadau swyddog cymorth arolygu ardystiedig yn rhan o'i system rheoli ansawdd. Roedd hyn yn cynnwys archwiliad mewnol o gydymffurfiaid â'r Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Roedd trefniadau ar waith i roi sylw i'r meysydd i'w gwella a nodwyd.

### **Cyngor arbenigol**

*Mae Rheoliad 9 (1) a 9 (2) yn nodi y dylai'r cyflogwr sicrhau bod Arbenigwr Ffiseg Feddygol ar gael yn ystod arferion safonol meddygaeth niwclear therapiwtig ac yn ystod arferion diagnostig meddygaeth niwclear, ac y dylai gymryd rhan fel y bo'n briodol ym mhob datguddiad meddygol radiolegol arall.*

Roedd rhestr o arbenigwyr ffiseg feddygol ar gael a chyfeirir at hyn o fewn dogfen *Llawlyfr Datguddiadau Meddygol ar gyfer Radiotherapi* y cyflogwr. Fodd bynnag, dylai'r ddogfen ddiffinio'n well swyddogaeth arbenigwyr ffiseg feddygol o fewn y gwasanaeth radiotherapi.

Er y gellid diffinio eu swyddogaeth yn well yn y ddogfen a nodir uchod, yn ystod trafodaethau â'r uwch staff, gwelwyd bod yr arbenigwyr ffiseg feddygol yn rhan o'r broses datguddiadau meddygol mewn modd priodol.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid adlewyrchu swyddogaeth yr arbenigwyr ffiseg feddygol yn well yn y dogfennau ategol.***

### **Cyfarpar**

*Mae Rheoliad 10 yn gofyn bod gan y cyflogwr restr o gyfarpar cyfredol sy'n cynnwys enw'r gwneuthurwr, rhif y model, y rhif cyfresol, blwyddyn cynhyrchu'r cyfarpar, a blwyddyn gosod y cyfarpar.*

Roedd gan y cyflogwr restr gyfredol o gyfarpar radiolegol. Roedd hyn yn bodloni gofynion RhŶI(DM). Er cyflawnrwydd, dylai'r cyflogwr ystyried cynnwys yr holl gyfarpar ategol a allai ddylanwadu ar y datguddiadau meddygol, er enghraifft yr offer sicrhau ansawdd/pecynnau meddalwedd. Fodd bynnag, gwelwyd bod y rhain wedi'u cynnwys ar y gofrestr asedau.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roeddem o'r farn bod yr uwch staff yn rhoi arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol. Cafodd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir eu disgrifio a'u gweld yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol).**

Roedd rheolwr gwasanaeth radiotherapi'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd, ac roedd tîm amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a staff cymorth yn ei gefnogi. Dangoswyd perthnasau gweithio agos ac effeithiol rhwng y staff clinigol, y gwyddonwyr a'r staff peirianeg technegol o fewn y gwasanaeth radiotherapi.

Cafodd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir eu disgrifio a'u gweld o ran Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol).

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom gwrdd â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth radiotherapi. Roeddem o'r farn bod y tîm staff yn gyfeillgar ond eto'n broffesiynol, ac roedd yn amlwg eu bod yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel i gleifion.

Yn ystod ein cyfarfod adborth ar ddiwedd yr arolygiad, roedd uwch reolwyr y bwrdd iechyd a'r staff radiotherapi'n barod i dderbyn ein sylwadau. Gwnaethant ddangos yn glir eu bod yn ymroddedig i ddysgu o'r arolygiad ac i wneud gwelliannau fel y bo'n briodol.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae angen i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC ymhen pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng nghanolfan Trin Canser Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn systemig ar draws adrannau ac unedau eraill y bwrdd iechyd.

Pan gytunir ar gynllun gwella'r bwrdd iechyd, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus o'r RhYŷ(DM).

## Atodiad A

RhYİ(DM):

Cynllun Gwella

Ysbyty:

Ysbyty Glan Clwyd

Adran:

Canolfan Trin Canser Gogledd Cymru

Dyddiad yr Arolygiad:

24 a 25 Awst 2016

Tudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>			
-	Dim angen cynllun gwella.			
	<b>Cydymffurfiaeth â RhYİ(DM)</b>			
10	Dylid ystyried symleiddio gweithdrefnau'r RhYİ(DM) ar adeg yr adolygiad er mwyn lleihau dyblygu gwybodaeth a chynnig mwy o eglurhad.	Adolygu a diwygio'r dogfennau perthnasol.	Pennaeth Sicrhau Ansawdd Gwasanaethau Radiotherapi / Pennaeth Gwasanaethau Radiotherapi	Mawrth 2017
12	Dylid gwella cofnodion hyfforddiant oncolegwyr clinigol	Yn y dyfodol, bydd hyfforddiant yn ymwneud â thasgau gweithredwyr yn dilyn diweddarau meddalwedd a chyfarpar yn	Cyfarwyddwr Clinigol/ Pennaeth	Parhaus

Tudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	sydd â'r hawl i fod yn weithredwyr.	cael ei ymestyn i gynnwys Oncolegwyr, a bydd hynny'n cael ei ddogfennu a'i gadw'n electronig o fewn yr adran radiotherapi.	Ffiseg Radiotherapi/ Pennaeth Gwasanaethau Radiotherapi	
12	Dylid ystyried datblygu cytundeb lefel gwasanaeth ffurfiol i amlinellu'r trefniadau a'r cyfrifoldebau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) ar gyfer cleifion a atgyfeirir ar gyfer brachirtherapi	Datblygu cytundeb lefel gwasanaeth â Chanolfan Oncoleg Clatterbridge ar gyfer cleifion a atgyfeirir ar gyfer brachyrtherapi	Pennaeth Sicrhau Ansawdd Gwasanaethau Radiotherapi/ Pennaeth Gwasanaethau Radiotherapi/ Rheolwr Cyffredinol Canser	Rhagfyr 2016
13	Gwella'r meini prawf atgyfeirio ysgrifenedig ar gyfer radiotherapi.  Sefydlu amcangyfrifon o'r dosau ar gyfer delweddau CBCT.	Cynnwys meini prawf atgyfeirio mewn protocolau clinigol pa bryd bynnag y cânt eu hadolygu  Bydd y gwasanaeth yn sicrhau y bydd amcangyfrifon o ran dosau, ar gyfer delweddau CBCT wrth gomisiynu offer / technegau, ar gael yn rhwydd yn ystod y broses o wneud penderfyniadau clinigol sy'n risg neu'n fanteisiol	Pennaeth Sicrhau Ansawdd Gwasanaethau Radiotherapi / Pennaeth Gwasanaethau Radiotherapi  Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Pan gânt eu hadolygu – Mehefin 2017  Ionawr 2017

<b>Tudalen</b>	<b>Yr hyn y mae angen ei wella</b>	<b>Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth</b>	<b>Swyddog Cyfrifol</b>	<b>Amserlen</b>
14	Rhaid i'r cyflogwr wneud trefniadau addas i ddangos y manteisiwyd ar gyfleoedd i optimeiddio datguddiadau, pan ddefnyddiwyd delweddau CBCT.	I optimeiddio datguddiadau CBCT, nid oes canllawiau ar gael ar gyfer y DU ar hyn o bryd. Bydd y gwasanaeth yn monitro'r sefyllfa hon yn agos, ac yn y cyfamser, bydd yn meincnodi ei arferion mewn perthynas â'r dystiolaeth gyhoeddus ac yn gweithredu'r argymhellion a ddisgwylir gan y gweithgor a sefydlwyd yn ddiweddar gan y corff proffesiynol.	Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Dechrau Ionawr 2017 ac yna'n barhaus
17	Dylid adlewyrchu swyddogaeth yr arbenigwyr ffiseg feddygol yn well yn y dogfennau ategol.	Ar adeg adolygu'r dogfennau, bydd y dogfennau ategol yn cael eu hegluro; ar adeg yr adolygiad nesaf, bydd swyddogaeth yr arbenigwyr ffiseg feddygol, yn benodol, yn cael ei hadlewyrchu'n well	Pennaeth Ffiseg Radiotherapi	Mawrth 2017 ac yna'n Barhaus
<b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
-	Dim angen cynllun gwella.			

## Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

**Enw (llythrennau bras):** Carmel Barnett.....

**Teitl:** Rheolwr Gwasanaethau Radiotherapi.....

**Dyddiad:** 27 Medi 2016.....